**CYNGOR CYMUNED TREWALCHMAI COMMUNITY COUNCIL**
**CYFARFOD 1/9/2014**

**PRESENNOL:** Mrs S Jones,Mrs C Lloyd,Mrs E Jones,Ms M Williams,Mrs H Williams,Ms M E Evans, Mr G Williams,Mr B Veevers,Mr R G Parry, PCSO Marcia Hughes a'r Arolygydd Guy Blackwell

**PRESENT:** Mrs S Jones,Mrs C Lloyd,Mrs E Jones,Ms M Williams,Mrs H Williams,Ms M E Evans, Mr G Williams,Mr B Veevers,Mr R G Parry, PCSO Marcia Hughes and Inspector Guy Blackwell

**YMDDIHEURIAD:** Derbyniwyd ymddiheuriad am ei habsenoldeb oddi wrth Mrs S Roberts.

**APOLOGY:** An apology for her absence was received from Mrs S Roberts.

**COFNODION:** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7/7/2014 yn gofnod cywir.

**MINUTES:** The minutes of the meeting held on 7/7/2014 were accepted as true minutes.

**MATERION YN CODI:**

**1. Cymru'r Cofio.** Cafwyd noson arbennig o lwyddiannus ar y 4/4/2014 pan godwyd £1431. 60 tuag at brosiect y cloc. Gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyr o ddiolch at bawb oedd wedi cymryd rhan yn y gwasanaeth, yn cynnwys y merched a fu'n cynorthwyo Mrs Edna Jones i ddarparu'r lluniaeth yn dilyn y gwasanaeth.

**2. Prosiect y Cloc.**

**(a) Digido'r cloc.** Penderfynwyd yn unfrydol cadw'r hen system.

**(b) HLF.** Gwybodaeth bod rhaid cwblhau'r gwaith ar y cloc erbyn dechrau fis Mai 2015.

**(c) Cyngor Sir Ynys Môn**. Wedi llwyddo i ennill £6000 o grant gan y Cyngor Sir.

**(d) Cyfraniadau.** Cyfanswm o £791.00 wedi'i dderbyn ers y cyfarfod diwethaf.

**(e) New Forest Energy Ltd.** Penderfynwyd gofyn i'r Clerc gysylltu â Stad Meyrick i holi beth oedd yn digwydd ynglŷn â'r cyfraniad o £5000 a addawyd gan New Forest Energy Ltd.

**(f) J B Joyce.** Penderfynwyd gofyn i'r Clerc gysylltu â Mri J B Joyce i ofyn iddynt ddechrau ar y gwaith ynghyd a'u

**MATTERS ARISING:**

**2. Wales Remembers.** An exceptionally successful event was held on the 4/4/2014 when £1431.60 was raised towards the clock project. The Clerk was requested to write to all who had taken part in the service, including the ladies who had assisted Mrs Edna Jones to prepare the refreshments following the service.

**2. Clock Project.**

**(a) Digitalising the clock.** It was decided to keep with the old system.

**(b) HLF.** We were informed that the work on the clock must be completed by the beginning of May 2015.

**(c) Isle of Anglesey County Council.** Grant of £6000 awarded to the project from the Isle of Anglseey CC.

**(d) Donations.** Since the last meeting a total of £791.00 had been received.

**(e) New Forest Energy Ltd.** It was decided that the Clerk should contact Meyrick Estates to discover the position regarding the £5000 donation promised by New Forest Energy Ltd.

**(f) J B Joyce.** It was decided that the Clerk should contact Messrs J B Joyce asking them to proceed with the work and

cynghori o'r dyddiad y bydd rhaid gorffen y gwaith. Y Clerc hefyd i gysylltu â Tony White, Mona F & T i roi'r un wybodaeth a rhoi manylion cyswllt Mri J B Joyce iddo.

advising them of the date by which the work should be completed. The Clerk to contact Tony White, Mona F & T also, giving him the same information and to give him Messrs J B Joyce's contact details.

**(g) Mrs Grace Jones, Maes Meurig.** Mrs Jones yn trefnu Cyngerdd i godi arian at y cloc ac yn gofyn am gymorth gyda rhoddion ar gyfer raffl, a hefyd yn gofyn i aelodau'r Cyngor Cymuned gynorthwyo i drefnu lluniaeth ysgafn yn dilyn y cyngerdd. Penderfynwyd gofyn i Mrs Edna Jones arwain y trefniadau ar gyfer y lluniaeth. Y Clerc i gysylltu â Mrs Stephanie Roberts i ofyn iddi gynorthwyo yn y gegin ar y noson.

**(g) Mrs Grace Jones, Maes Meurig.** Mrs Jones arranging a Concert to raise funds for the clock and requesting help with gifts for the raffle, and also asking members of the Community Council to help with light refreshments following the concert. It was decided to ask Mrs Jones to take the lead with arrangements for the refreshments. The Clerk to contact Mrs Stephanie Roberts to ask her to help the kitchen on the evening of the concert.

**4. Llwybrau Cyhoeddus.**
**(a) Brynteg.** Dywedodd y Cadeirydd fod y llwybr wedi'i drwsio'n dda, a bod y Cyngor Sir yn mynd i adnewyddu tair camfa gerrig.
(b) **Mrs Bown.** Wal derfyn rhwng tŷ Mrs Bown a'r llwybr cyhoeddus angen ei drwsio. Dywedodd Mr Veevers fod Mrs Bown yn gwneud trefniadau i drwsio'r wal.

**4. Public Footpaths.**
**(a) Brynteg.** The Chairman reported that the footpath had been repaired well, and that the County Council were going to replace 3 stone stiles.
**(b) Mrs. Bown.** The boundary wall between Mrs Bown's property and the public footpath is in need of repair. Mr Veevers reported that Mrs Bown was arranging to have the wall repaired.

**5. Trevor Jones, Maes Meurig.** PCSO Hughes wedi bod yn gweld Mr Jones yn dilyn ei gŵyn am oryrru. Mr Jones wedi penderfynu nad oedd am i'r PCSO gysylltu â'r sawl oedd yn goryrru.

**5. Trevor Jones, Maes Meurig.** PCSO Hughes had been to see Mr Jones following his complaint regarding speeding in the village. Mr Jones had decided that he did not wish the PCSO to contact the person that was speeding.

**GOHEBIAETH:**
**1. Un Llais Cymru.** Rhestr o'r 8 cynnig a gyflwynir yn AGM Un Llais Cymru ar 4/10/14.

**2. Cyngor Sir Ynys Môn.**
**(a)** Gwybodaeth am ddigwyddiad Ynni Cymunedol ar y 18/9/14, a hefyd datganiad swyddogol ynglyn â'r penderfyniad i beidio mynd ymlaen a Fferm Wynt Rhiannon.
**(b)** Rhifyn 4 o newyddlen yn diweddaru'r cynnydd ar Gynllun

**CORRESPONDENCE:**
**1. One Voice Wales.** A list of the 8 motions to be put forward at the AGM on 4/10/14.

**2. Isle of Anglesey County Council.**
**(a)** Information regarding Community Energy event on 18/9/14, and also official statement regarding the decision not to be proceed with the Rhiannon Wind Farm.

**(b)** Newsletter – issue 4 – outlining the progress on the Joint Local Development

Datblygu Lleol ar y Cyd – Gwynedd a Môn.
**(c)** Ymgynghori ar Strategaeth Dai Lleol Ynys Môn. Ymatebion erbyn Medi 26.

(**d)** Dogfen Adeilad Niwclear Newydd yn Wylfa; Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol wedi ei fabwysiadau'n ffurfiol.
**(e) Pwyllgor Cynllunio.** Gwybodaeth bod apêl Ty'n Coed Bach i ddigwydd ar y 28/10/14.
**Rhybudd Penderfyniad** i (i) ganiatáu cais llawn i addasu ac ehangu yn 4 Maes Meurig; (ii) caniatáu cais amlinellol ar gyfer codi annedd newydd ar dir ger The Old Police Staion; (iii) caniatau cais llawn am addasu ac ehangu yn Pant y Llawr.

Plan – Gwynedd and Môn.

**(c)** Consultation on Local Housing Strategy for Anglesey. Comments by 26 September.
**(d)** New Nuclear Build at Wylfa: Supplementary Planning Guidance document formally adopted.
**(e) Planning Committee:** Planning appeal on Ty'n Coed Bach to take place on 28/10/14.
**Planning Decisions:** Permission granted to full application for alterations and extensions at 4 Maes Meurig; (ii) permission granted to outline application for erection of dwelling at The Old Police Station; (iii) permission granted to full application for alterations at Pant y Llawr.

**3. Llywodraeth Cymru.**
Dogfennau er gwybodaeth am Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru); Y Sgwrs Genedlaethol Beilot - y Gymru a Garem erbyn 2050; Siarter Datblygu Cynaliadwy; Copi o'r Papur Gwyn ar Ddiwygio Llywodraeth Leol.

**3. Welsh Government.**
Documents for information re Well-being of Future Generations (Wales) Bill; The Pilot National Conversation – The Wales we want by 2050; Sustainable Development Charter; Copy of White Paper – Reforming Local Government.

**4. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.** Copi o rifyn 17 Llyfr Achos yr Ombwdsmon

**4. Public Services Ombudsman for Wales.** Copy of the 17th edition of the Ombudsman's Casebook.

**ARIANNOL:**
**Cyflog y Clerc** am yr ail chwarter o'r flwyddyn ariannol i'w dalu, ynghyd â'r PAYE.

**FINANCIAL:**
**Clerk's salary** for the second quarter of the financial year to be paid together with the PAYE.

**UNRHYW FATER ARALL:**
Ni chafwyd unrhyw fater arall ar gyfer ei drafod.

**ANY OTHER MATTER:**
There were no other matters to be discussed.

**CYFARFOD NESAF:** Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Fawrth 7/10/14.

**NEXT MEETING:** The next meeting will be held on Tuesday 7/10/14.